## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, neuadd y Dref, Rhuthun ar ddydd Mercher, 24ain Mai 2000 am 10.00 a.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorydd J. Butterfield, D.W. Davies, P. Douglas, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, J.R. Hughes, N.J. Hughes, R.W. Hughes, F.D. Jones, G. Jones, N.H. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, G.M. Kensler (dirprwy ar ran E.W. Williams), F. Shaw, J.A. Smith, K.P. Stevens, S. Thomas, W.G. Thomas, A.J. Tobin, K.E. Wells, C.H. Williams (dirprwy ar ran M. Ll. Davies), P.J. Williams P.O. Williams ac R.Ll. Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Pennaeth Cyfreithiol a Gweinyddol, Pen Swyddog Cynllunio (Y Gogledd), Pen swyddog Cynllunio (Y De) a'r Swyddog Gweinyddol (G. Butler).

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr M. Ll. Davies ac E.W. Williams.

### 74. PENODI CADEIRYDD

***PENDERFYNWYD*** *ail-ethol y Cynghorydd F.D. Jones yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.*

### 75. PENODI IS-GADEIRYDD

***PENDERFYNWYD*** *ail-ethol y Cynghorydd R.W. Hughes fel Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddid.*

### 76. MATERION BRYS

(i) Deiseb

Cyflwynodd y Cynghorydd A.J. Tobin ddeiseb gyda 565 llofnod yn gwrthwynebu'r cynnig i adeiladu 22 o dai newydd ym Maes Pengwern, Llangollen.

### 77. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio (a ddosbarthwyd eisoes) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion fel a gynhwyswyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd nawr a rhoi caniatâd cynllunio neu wrthod, fel y bo'r achos, fel y bo'n briodol dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndal, 1991, Rheolau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, i'r datblygiadau a gynigiwyd gan y cynlluniau canlynol, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd yn yr atodlen a gyflwynwyd nawr:-*

(i) caniatâd

| Rhif y Cais | .Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2000/0235/PF | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymru).<br>Adeiladu bloc stablau, llunio iard stabl a defnyddio rhan o gae fel menage yn Ysgol Howells, Park Street, Dinbych.<br>YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 5 a nodyn newydd at yr ymgeisydd:-<br>5. Ni ddylid cychwyn ar y datblygiad nes bydd y manylion canlynol wedi eu cyflwyno i a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol:-<br>(i) sampl o liw a gwead deunydd arwynebu terfynol y menage;<br>(ii) uchder, math, lleoliad a gorffeniad y mur i'w godi o amgylch y menage, a<br>(iii) y dull o waredu dwr halogedig/elifiant yn deillio o'r stablau/ardal y menage.<br>RHESWM - yn unol â'r adroddiad.<br>Nodyn newydd i'r ymgeisydd - Fe'ch cynghorir, mewn cysylltiad gan Amod 5(iii) o'r caniatâd hwn, bod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod holl ddeunydd draenio arwyneb halogedig yn cael ei waredu mewn dull sy'n rhwystro unrhyw arllwys i dwll arbrofi, ffynnon, ffos gerrig neu gwrs dwr, gan gynnwys ffosydd sych mewn cysylltiad gyda chwrs dwr. Bydd gwyro cwrs dwr yn gofyn am ganiatâd ar wahân gan yr Awdurdod lleol dan delerau Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936 a chan Asiantaeth yr Amgylchedd dan Ddeddf Draenio Tir a Deddf Adnoddau Dwr 1991.<br>(Gofynnodd yr Aelodau canlynol am gael nodi iddynt ymatal rhag pleidleisio ar yr eitem hon: Y Cynghorwyr I.M. German, M.A. German, G. Jones, C.H. Williams, P.O. Williams) |
| 01/2000/0236/PF | (Ar ôl ystyried cyflwyniad llafar gan y Pennaeth Priffyrdd).<br>Adeiladu ysgubor wellt yn Ysgol Howells, Park Street, Dinbych. |
| 03/1999/0366/PF | (Datganodd y Cynghorwyr C.H. Williams a P.O. Williams ddiddordeb yn y cais canlynol a gadael y Siambr tra ystyriwyd y mater).<br>(Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol oddi wrth S. Ellis, 73 Maes Pengwern, Llangollen; Deiseb a gyflwynwyd gan y Cynghorydd A.J. Tobin a'r Pennaeth Priffyrdd).<br>Adeiladu 22 ty newydd a mynedfeydd cysylltiedig ar gyfer ceir a cherddwyr ar dir ym Maes Pengwern, Llangollen.<br>YN AMODOL ar yr amod diwygiedig canlynol rhif 3 a nodyn newydd i'r ymgeisydd-<br>3.Ni ddylid cychwyn ar y datblygiad ar y safle nes bydd cytundeb ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei dderbyn ar fanylion:-<br>(i) holl waith priffyrdd sydd eu hangen mewn cysylltiad gyda'r cynllun gan gynnwys:<br>(a) toriadau hir a chroestoriadau'r priffyrdd arfaethedig;<br>(b) mesurau tawelu traffig;<br>(c) trefniadau rheoli traffig, gan gynnwys manylion sut bwriedir diogelu mynediad i'r ysgol;<br>(d) rhaglen arfaethedig y gwaith adeiladu, a'r<br>(ii) system draenio dwr aflan ac arwyneb.<br>Nodyn newydd i'r ymgeisydd - mewn perthynas â manylion priffyrdd parthed y datblygiad, fe'ch cynghorir bod y caniatâd/cytundebau perthnasol wedi eu cael gan y Cyfarwyddwr Addysg, Diwylliant a Gwybodaeth, Pennaeth Eiddo a Stadau a'r Pennaeth Priffyrdd. |

Mae'r argymhelliad yn destun cwblhau unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i Ymrwymiad Adran 106 ar reoli deiliadaeth gyntaf a deiliadaeth wedi hynny yr anheddau i drigolion Llangollen; os methir â chwblhau'r Ymrwymiad, cyfeirir y cais yn ôl i'r Cyngor i'w benderfynu yn erbyn y polisïau perthnasol ac ystyriaethau perthnasol ar y pryd. Cyflwynir y dystysgrif o benderfyniad dim ond ar ôl cwblhau'r Ymrwymiad Adran 106.

12/2000/0287/PC

(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol gan Gyngor Cymuned Derwen).
Cadw estyniad yng nghefn adeilad presennol da byw ac offer ym Mraich yr Alarch, Clawddnewydd, Rhuthun, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar yr amodau diwygiedig canlynol 2 a 3:-
2.Dylid tirlunio/plannu'r ardal a nodir wedi ei ymylu mewn coch ar y cynllun ynghlwm wrth y dystysgrif hon erbyn Ebrill 2001 fan bellaf gyda'r canlynol:

(a) gwrych cymysg yn cynnwys 50% draenen wen a 50% collen, wedi eu plannu bob 1.5 medr yn yr ardal a nodir mewn gwyrdd ar y cynllun ynghlwm wrth y dystysgrif;
(b) plannu yn unol â'r rhywogaethau a nodir ar gynllun cyf. L1/99 darlun 0/3, yn cynnwys criafol, bedw a cheirios gwyllt o leiaf 4 medr o uchder;
(c) hadau gwair ar y torlannau agored, a
(d) ffens cadw da byw allan yn y fan a nodir ar y cynllun.

3.Dylid hadu a gweirio'r mannau lle mae'r pridd wedi ei gloddio a'i lefelu erbyn Ebrill 2001 fan bellaf, ac unrhyw fannau sydd, o fewn 5 mlynedd i'r datblygiad, yn marw neu eu niweidio yn ddifrifol, eu symud neu sy'n dioddef o afiechyd difrifol gan eu lefelu a'u hadu yn y tymor plannu nesaf.

12/2000/0288/PC

(Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Derwen).
Cadw estyniad i du blaen adeilad da byw (rhannol ôl-weithredol) ym Mraich yr Alarch, Clawddnewydd, Rhuthun, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar yr amod diwygiedig canlynol rhifau 2 a 3
2.Dylid tirlunio/plannu'r ardal a nodir wedi ei ymylu mewn coch ar y cynllun ynghlwm wrth y dystysgrif hon erbyn Ebrill 2001 fan bellaf gyda'r canlynol:

(a) gwrych cymysg yn cynnwys 50% draenen wen a 50% collen, wedi eu plannu bob 1.5 medr yn yr ardal a nodir mewn gwyrdd ar y cynllun ynghlwm wrth y dystysgrif;
(b) plannu yn unol â'r rhywogaethau a nodir ar gynllun cyf. L1/99 darlun 0/3, yn cynnwys criafol, bedw a cheirios gwyllt o leiaf 4 medr o uchder;
(c) hadau gwair ar y torlannau agored, a
(d) ffens cadw da byw allan yn y fan a nodir ar y cynllun.

3.Dylid hadu a gweirio'r mannau lle mae'r pridd wedi ei gloddio a'i lefelu erbyn Ebrill 2001 fan bellaf, ac unrhyw fannau sydd, o fewn 5 mlynedd i'r datblygiad, yn marw neu eu niweidio yn ddifrifol, eu symud neu sy'n dioddef o afiechyd difrifol gan eu lefelu a'u hadu yn y tymor plannu nesaf.

13/2000/0146/PS

(Datganodd y Cynghorydd S. Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadael y Siambr tra ystyriwyd y mater).
Cynllun diwygiedig o 9 carafán a gafodd ganiatâd cynllunio eisoes dan gôd rhif. 13/611/99/PF yn Woodlands Hall Caravan Park, Llanfwrog, Rhuthun, Sir Ddinbych.

| | |
|---|---|
| 20/2000/0227/PO | Datblygu tir trwy adeiladu annedd sengl (cais amlinell) ar dir ger Glanaber, Pentrecelyn, Rhuthun, Sir Ddinbych. |
| 43/2000/0273/PF | Adeiladu estyniad llawr cyntaf to goleddf i gartref preswyl yn 16 Plas Melyd Residential Home, Ffordd Tanrallt, Melyd, Prestatyn, Sir Ddinbych. |
| 44/1998/0515/PF | Adnewyddu cais cyf. 2/RHU/144/92/P yn cynnwys stâd ddiwydiannol arfaethedig (adeiladu 24 uned busnes a diwydiannol (Dosbarthiadau B1 a B2 ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau) ar dir yn cyffinio HTM Business Park/Lowlands, Abergele Road, Rhuddlan, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL AR Gytundeb diwygiedig Adran 106 yn delio gyda gwaith priffyrdd ar yr A547l rheoli defnydd ar y safle, darparu arwyddion ar y safle, tirlunio strwythurol a dwr arwyneb. |
| 44/2000/0306/PC | (Datganodd y Cynghorydd S. Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadael y Siambr tra ystyriwyd y mater).<br>(Yn amodol ar beidio â derbyn unrhyw gyflwyniadau pellach yn codi materion cynllunio na thrafodwyd yn yr adroddiad erbyn 1af Mehefin 2000)<br>(Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Tref Rhuddlan a'r Pensaer Cadwraeth).<br>Parhau defnyddio tir fel safle carafanau ar gyfer 21 carafán sefydlog (cais ôl-weithredol) yn Aberkinsey, Dyserth, Y Rhyl, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL ar amodau newydd canlynol. 2, 3 a 4:-<br>2. Defnyddir y safle i ddibenion gwyliau yn unig.<br>RHESWM - Ni ystyrir bod y safle yn addas ar gyfer deiliadaeth barhaol.<br>3. O fewn 3 mis o ddyddiad y penderfyniad hwn, dylid cyflwyno cynllun ar gyfer tirlunio meddal ar gyfer ffin ddwyreiniol y safle i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a dylai cynllun o'r fath gynnwys manylion:-<br>(a) holl goed, gwrychoedd a llystyfiant arall sydd ar y safle ar hyn o bryd a<br>(b) coed, gwrychoedd a llystyfiant newydd arfaethedig gan gynnwys manylion rhywogaethau, niferoedd a lleoliad.<br>RHESWM - I sicrhau buddiannau gweledol a safon foddhaol o dirlunio mewn cysylltiad gyda'r datblygiad.<br>4.Amod safonol rhif. 15F "y tymor plannu nesaf h.y. Hydref 2000 i Fawrth 2001".<br>RHESWM - I sicrhau buddiannau gweledol a safon foddhaol o dirlunio mewn cysylltiad gyda'r datblygiad. |
| 45/2000/0091/PF | Trosi lloriau cyntaf, ail a thrydydd adeilad yn 5 fflat ollgynhwysol a newid tu blaen siop a drychiadau allanol, gan gynnwys gosod ffenestr dormer a chaead rholio yn 29-31 Regency Photographic, Water Street, Y Rhyl, Sir Ddinbych. |
| 45/2000/0163/PF | Adeiladu estyniad llawr cyntaf dros falconi presennol, adeiladu estyniad un llawr to goleddf a pharhau to goleddf dros do gwastad presennol yng nghefn ty annedd yn 51 Rosehill Road, Y Rhyl, Sir Ddinbych. |
| 45/2000/0196/PC | (Ar ôl cywiro paragraff 3 (mae lle i ddim mwy na 10 car yn yr ardal y tu allan i'r swyddfa)).<br>Parhau defnyddio cyn floc cawodydd ar wersyll gwyliau fel swyddfa reoli tacsis (cais ôl-weithredol) yn Mountain View, 423/425 Cefn Swyddfa Dacsis, Coast Road, Y Rhyl, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL ar amodau diwygiedig canlynol rhifau 1, 2 a 3:- |

1.Dylid rhoi'r gorau i'r defnydd a ganiateir trwy hyn a dychwelyd y tir i'r defnydd blaenorol ar neu cyn 30ain Mehefin 2002
RHESWM - I alluogi arolygu'r defnydd yng ngoleuni'r berthynas gyda defnydd cyffiniol a lle parcio cyfyngedig a throi.
2.Ni ddylid gwasanaethu neu atgyweirio cerbydau yn yr eiddo.
RHESWM - yn unol â'r adroddiad.
3. Ni ddylid darparu man aros i gwsmeriaid yn yr eiddo.
RHESWM - er budd diogelwch priffyrdd a mwynderau deiliaid cyfagos.

45/2000/0206/AD — Cadw 8 hysbyseb polyn fflag ar du blaen maes carafanau yn Lyons-Robin Hood Holiday Camp (Rhyl) Ltd., Coast Road, Y Rhyl, Sir Ddinbych.

45/2000/0214/AD — (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol oddi wrth y Pennaeth Priffyrdd).
Cadw 1 arwydd sengl (cais ôl-weithredol) ar dir rhwng Avondale Drive a 108 Dyserth Road, Y Rhyl, Sir Ddinbych.

45/2000/0289/PF — (Ar ôl ystyried cynllun lleoliad diwygiedig a ddosbarthwyd yn y cyfarfod).
Parhau i ddefnyddio tir i ffurfio rhan o iard adeiladu ac adeiladu syniad i adeilad swyddfa presennol yn T. Anwyl & Sons Ltd., Mona Terrace, Y Rhyl, Sir Ddinbych.

45/2000/0290/PF — (Ar ôl ystyried cynllun lleoliad diwygiedig a ddosbarthwyd yn y cyfarfod).
Newid defnydd tir i ffurfio rhan o iard adeiladu ac adeilad storfa bren ar ôl dymchwel byngalo yn T. Anwyl & Sons Ltd., The Bungalow, Greenfield Street a Mona Terrace, Y Rhyl, Sir Ddinbych.
YN AMODOL ar amod diwygiedig canlynol rhif 3 ac amod newydd rhif 6:-
3. Ychwanegu "and thereafter the parking and turning areas indicated on the approved plan (Drawing No. 4231/10A) shall be retained solely for the parking and turning of vehicles".
6. Cyn dechrau defnyddio'r storfa, dylid darparu mur sgrinio 2 medr o uchder i ffin ddeheuol 11 Greenfield Street yn unol â manylion i'w cyflwyno i a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
RHESWM - Er budd mwynderau preswyl.

(iii) Gwrthod

| Rhif Cais . | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 05/1999/0532/PF | (Datganodd y Cynghorydd S. Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadael y Siambr tra ystyriwyd y mater). Newid defnydd tir amaethyddol i ffurfio gwersyllfa i bebyll gyda chyfleusterau cysylltiedig yn cynnwys lleoli carafán i'w defnyddio fel siop a portaloo/portakabin fel toiledau/ystafell ymolchi ym Mhant Tywyll, Holyhead Road, Corwen, Sir Ddinbych. |
| 15/2000/0063/PF | Trosi ysgubor i ffurfio un annedd a gosod tanc septig newydd gyferbyn â Nant Cottage, Llanarmonyniâl, Yr Wyddgrug, Sir Ddinbych.. |
| 31/2000/0086/PF | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol (a ddarllenwyd yn llawn) gan Asiant yr Ymgeisydd yn gofyn am ohirio'r cais. Gwrthodwyd y cais am ohirio oherwydd nad oedd unrhyw gynnig amgen) Newid defnydd tir amaethyddol cyffiniol i ffurfio estyniad i gwrtil preswyl ac adeilad modurdy to goleddf un llawr a chadw cynel cwn (rhannol |

ôl-weithredol) ar dir yn cyffinio Plas Bryn Celyn, Groesffordd Marli, Abergele, Sir Ddinbych.

(b) *Er gwaethaf argymhellion y Swyddogion, CANIATÁU'R ceisiadau canlynol am y rhesymau a nodwyd:-*

| Rhif y Cais. | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 27/2000/0241/PF | Adfer cyn dy annedd yn Bethesda Chapel Cottages, Pentredwr, Llangollen, Sir Ddinbych.<br>YN AMODOL ar amodau canlynol rhifau. 1, 2 a 3:-<br>1. Safonol 5 mlynedd<br>2. Er gwaethaf darpariaethau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinola Ganiateir) 1995 (neu unrhyw Orchymyn yn diddymu neu ailddeddfu'r Gorchymyn hwnnw), ni ddylid ehangu, gwella na newid yr annedd mewn unrhyw ffordd arall (fel a ddisgrifir yn Nosbarthiadau A, B, C, D, E ac H yn Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn, heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gyntaf.<br>RHESWM - Er mwyn sicrhau nad yw nodweddion yn adeilad yn cael eu niweidio gan newidiadau amhriodol.<br>Cymerwyd y penderfyniad, A OEDD YN GROES i argymhellion y Swyddogion, am y rheswm canlynol:-<br>Bod gwaith sylweddol eisoes wedi ei ganiatáu gan ganiatâd cynllunio blaenorol a roddwyd. |

c) *Er gwaethaf argymhellion y Swyddogion, GWRTHOD y cais canlynol am y rhesymau a nodwyd:-*

| Rhif y Cais. | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/1999/0891/PF | (Ar ôl ystyried pedwar llythyr ychwanegol oddi wrth Gymdeithas Ddinesig Dinbych; P.G. Shoosmith, 78 Crud Y Castell, Dinbych; D. a S. Garnsey, 52 Crud Y Castell, Dinbych a P.S. Davies, 124 Vale Street, Dinbych).<br>Newid defnydd tir amaethyddol ar gyfer defnydd ysgol i bori ceffylau yn Ysgol Howells, Park Street, Dinbych, Sir Ddinbych.<br>Cymerwyd y penderfyniad, A OEDD YN GROES i argymhelliad y Swyddogion, am y rhesymau canlynol:-<br>1.Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, byddai colli 8 hectar o dir yn cael effaith annerbyniol ac andwyol ar hyfywedd, effeithiolrwydd a rheolaeth yr uned amaethyddol yn Goblin Farm ac y byddai rhoi caniatâd yn mynd yn groes i'r cyngor a roddir yn TAN 6 Cymru (Datblygiad yn delio gyda Thir Amaethyddol)<br>2.Ystyrir bod presenoldeb ceffylau yn debygol o greu'r posibilrwydd ar gyfer perygl i ddiogelwch personol defnyddwyr y llwybrau cyhoeddus sy'n croesi'r safle, yn niweidio mwynhad cyhoeddus y llwybrau hyn.<br>3.Ystyrir bod y gweithgareddau a'r taclau cysylltiedig gyda cheffylau yn stablau a menage arfaethedig yr ysgol yn debygol o gael effaith niweidiol ar y dirwedd lleol, sy'n ffurfio golygfa bwysig o flaen Castell Dinbych o fewn Ardal o Dirwedd Arbennig fel a ddiffinnir yng Nghynllun Fframwaith Sir Clwyd; Altrad Cyntaf a Rhwystr Gwyrdd fel a ddiffinnir yng Nghynllun Lleol Dosbarth Glyndwr, gan yr ystyrir bod y cynigion yn groes i Bolisïau H2 a H5 y cynllun fframwaith ac L3 o'r Cynllun Lleol.<br>4.Ni ystyrir bod y rhwydwaith priffyrdd sy'n gwasanaethu'r safle hwn yn ddigonol i gymryd y traffig ychwanegol sy'n debygol o fod yn gysylltiedig gyda symud ceffylau disgyblion i ac o'r safle. |

(Gofynnodd y Cynghorydd G.M. Kensler am gael cofnodi iddi ymatal rhag pleidleisio ar yr eitem uchod).

18/2000/0272/LB

(Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth Gyngor Cymuned Llandyrnog a W.G. ac N.C. Williams, Plas Bennett).

Manylion diwygiedig trosi 3 uned yn dai annedd a ganiatawyd yn flaenorol dan gôd rhif 18/1017/98/LB mewn Tai Allan ym Mhlas Bennett, Llandyrnog, Dinbych, Sir Ddinbych.

Gyda'r nifer gofynnol o Aelodau wedi nodi eu bod yn dymuno cael pleidlais gofnodedig, yn unol â Rheol Sefydlog 13, cofnodwyd y pleidleisio fel a ganlyn:-

<u>O blaid y cynnig i wrthod caniatâd cynllunio</u> (15)

Y Cynghorwyr A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, J.R. Hughes, N.J. Hughes, N.H. Jones, G. Jones, R.J.R. Jones, G.M. Kensler, J.A. Smith, S. Thomas, A.J. Tobin a C.H. Williams.

<u>Yn erbyn y cynnig i wrthod caniatâd cynllunio</u> (12)

Y Cynghorwyr J. Butterfield, D.W. Davies, P. Douglas, R.W. Hughes, F.D. Jones, R.E. Jones, F. Shaw, K.P. Stevens, W.G. Thomas, K.E. Wells, P.J. Williams ac R. Ll. Williams.

<u>Ymatal</u> (1)

Y Cynghorydd P.O. Williams.

Cymerwyd y penderfyniad i wrthod caniatâd, A OEDD YN GROES i argymhelliad y Swyddogion, am y rhesymau canlynol:-

1.Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw bod manylion y cynllun trosi yn annerbyniol o safbwynt yr effaith ar gymeriad a golwg yr Adeilad Rhestredig, yn groes i Bolisi H14(iv) Cynllun Lleol Dosbarth Glyndwr a Pholisi G6 Cynllun Fframwaith Sir Clwyd: Altrad Cyntaf.

2.Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried bod y gwaith di-awdurdod ar yr Adeilad Rhestredig yn annerbyniol, gan dorri caniatâd presennol a thorri amodau ar y caniatâd hwnnw, gyda gweithgaredd o'r fath yn golygu trosedd mewn perthynas â Deddfwriaeth Adeiladau Rhestredig.

Nodyn newydd i'r Ymgeisydd - Fe'ch cynghorir y dylid gwneud y gwaith ar yr Adeilad Rhestredig y tu allan i ganiatâd Adeilad Rhestredig a Chynllunio a roddwyd dan Gôd rhif. 18/1016/98/PF a 18/1017/98/LB. Mae gwneud gwaith diawdurdod ar Adeilad Rhestredig yn drosedd a dylech fod yn ymwybodol y byddai'r rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau cyfreithiol os oes gwaith wedi neu am gael eu gwneud nad ydynt yn cydymffurfio gyda'r caniatâd perthnasol.

(Gofynnodd y Cynghorydd D.W. Davies fod y swyddog Monitro yn arolygu goblygiadau cyfreithiol y penderfyniad hwn)

*(ch)* *gohirio'r ceisiadau canlynol am y rhesymau a nodwyd:-*

| <u>Rhif y Cais.</u> | <u>Disgrifiad a Sefyllfa</u> |
|---|---|
| 47/2000/0238/PO | Datblygu 0.29 hectar o dir trwy ail-leoli adeilad storio presennol; adeiladu 3 ty annedd sengl; adeiladu mynedfeydd newydd i gerbydau/cerddwyr a gosod tanciau septig newydd - newid i Gais Cynllunio cyf. 47/163/99/PO (cais amlinell) mewn rhan o gael rhif 1685 a rhan o ardd yn Mount View, Holywell Road, Rhuallt, Llanelwy, Sir Ddinbych.<br>GOHIRIO i dderbyn manylion pellach ar yr adeilad ac i asesu effaith yr adeiladau storio ar y dirwedd a mwynderau preswyl yr ardal. |
| 08/2000/0061/PO | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol oddi wrth y Pennaeth priffyrdd a'r New Development Consultants). |

Datblygu tir trwy adeiladu un annedd ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau (cais amlinell) ar dir yn Waterfall Road, Cynwyd, Corwen, Sir Ddinbych.
GOHIRIO i asesu'r effaith ar gymeriad yr ardal ac asesu materion priffyrdd.

**78.** **DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Gan nad oded angen unrhyw ymweliadau safle, tynnwyd yr eitem hon yn ôl.

**79.** **RHESTR O GEISIADAU A GAFODD EU TRIN DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd eisoes) ar geisiadau am Ganiatâd Cynllunio wedi eu penderfynu ganddo dan hawliau dirprwyedig rhwng 1af Ebrill a 5ed Mai, 2000.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**80.** **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD****, dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym mharagraff 7 Atodlen 12A y Ddeddf, yn cael ei datgelu.*

**81.** **GWERTHUSIAD ADAS**

(i) Goblin Farm, Dinbych ( Par 1/1999/891/PF - Ysgol Howells, Dinbych)

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 p.m.

********************